Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd

2018 / 2019

www.tancgc.gov.uk

# Cynnwys


Rhagair – Y Prif Swyddog Tân 1
Crynodeb Gweithredol 2

## Adran 1
Cyflwyniad 3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 4
Safon System Reoli Amgylcheddol 2016 y Ddraig Werdd 5
Adolygiad Rheoli Amgylcheddol 5
Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn y Gwasanaeth 6

## Adran 2
Perfformiad Amgylcheddol – Ystadegau a Phrosiectau 9
Mesur a Monitro: Data Amgylcheddol 22
Hyfforddiant Amgylcheddol a Chydymffurfedd Gyfreithiol 22

## Adran 3
Amcanion a Thargedau Amgylcheddol ar gyfer 2017-18 25
Amcanion Amgylcheddol – 2018-19 27
Datganiad Amgylcheddol 28
Atodiad: Ystadegau Amgylcheddol Perthnasol 30
Polisi Amgylcheddol a Datganiad o Fwriad 32

# Rhagair gan y Prif Swyddog Tân



**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i groesawu cynaliadwyedd amgylcheddol wrth ddarparu Gwasanaeth rhagorol. Rydym yn parhau i ymdrechu i gyflawni'r nod hwn trwy leihau'r galw am ynni, gweithio tuag at beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, a lleihau Ôl Troed Carbon y Gwasanaeth Cyfan, a hynny flwyddyn ar ôl blwyddyn.**

Yr un yw ein gweledigaeth o hyd, sef bod yn Wasanaeth Tân ac Achub lle mae defnydd cynaliadwy o adnoddau, yn ogystal â materion amgylcheddol, yn dod yn rhan annatod o'n holl brosesau gwneud penderfyniadau ac yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau.


Rydym yn llwyr ymwybodol bod ein gweithrediadau yn dylanwadu ar yr amgylchedd lleol a byd-eang, ac felly rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau andwyol pa bryd bynnag y bydd y cyllid, y gweithrediadau a'r adnoddau yn caniatáu hynny.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth Tân, fel Aelod Statudol o bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gydweithredu a gweithio tuag at wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ein hardal, a hynny trwy gryfhau arferion cydweithio ledled yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn mynd i gyfarfodydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ymhob un o'r chwe sir, ac mae hyn yn sicrhau ein bod yn cefnogi ac yn gosod nodau a fydd yn sicrhau bod y Byrddau yn cyfrannu i'r eithaf at y nodau llesiant.

Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd ar gyfer 2015-2020 yn nodi'r prif egwyddorion, cynigion a chamau gweithredu gofynnol i leihau effeithiau gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth ar yr amgylchedd. Trwy gynnal ardystiad ar lefel uchaf Safon Rheoli Amgylcheddol 2016 y Ddraig Werdd flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym yn sicrhau ein bod yn parhau i'n herio ein hunain ac yn ysgogi gwelliannau cynaliadwy ac amgylcheddol bob blwyddyn.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd heriau mwy fyth yn parhau i'n hwynebu ar ein taith i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Rydym wedi cymryd camau breision yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys gosod nifer mawr o baneli solar ffotofoltäig ar do adeilad Pencadlys ein Gwasanaeth a'n hadeilad sy'n cynnwys cyfleuster hyfforddi a gweithdy yng Nghoed-yr-iarll, a fydd yn gwrthbwyso yn fawr ein galw am drydan trwy'r grid. Rydym hefyd wedi cychwyn ar ein taith gyffrous i ddefnyddio cerbydau Trydan nad ydynt yn gerbydau ymateb, yn ogystal â gosod pwyntiau gwefru ar ein safleoedd.

Credaf ein bod yn cyflawni rôl arweiniol o ran materion amgylcheddol ar gyfer sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl weithwyr a rhanddeiliaid eraill am eu cymorth parhaus a'u cyfraniadau gwerthfawr wrth helpu i gyflawni ein nodau o ran cynaliadwyedd. Edrychaf ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod wrth i ni barhau ar ein taith tuag at gynaliadwyedd.



Chris Davies QSFM MBA
Prif Swyddog Tân

# Crynodeb Gweithredol

Dyma'r chweched Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol a luniwyd gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n cwmpasu'r cyfnod ariannol 2018-19 ac yn crynhoi'r cyflawniadau a wnaed o ran ein perfformiad amgylcheddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn amlinellu'r cynnydd mewn perthynas â'n Hamcanion Amgylcheddol.

Mae'r adroddiad yn trafod ein meysydd perfformiad a monitro allweddol, a hynny mewn perthynas â'r effaith fwyaf ar yr amgylchedd. Mae'n amlinellu ein defnydd o ynni ac allyriadau, yn ogystal â faint o wastraff sy'n deillio o'n gweithgareddau. Mae'n amlygu'r cyflawniadau a'r prosiectau amgylcheddol yr ydym wedi ymgymryd â nhw, ac sy'n lleihau ein Hôl Troed Carbon, yn arbennig, o ran ein fflyd werdd gynyddol.

**Mae cynaliadwyedd yn golygu gwella ansawdd bywyd mewn ffordd nad yw'n achosi difrod parhaus i'r amgylchedd,** nac yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag gallu manteisio ar y pethau da yr ydym wedi dod yn gyfarwydd â nhw.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion amgylcheddol, **rydym yn gweithio tuag at Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd 2016** ledled y Gwasanaeth. Mae'r safon yn cynorthwyo'n proses gwneud penderfyniadau, ac yn ategu'r broses honno, gan sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r Safon yn cyd-fynd ag ISO 14001:2015, sy'n sicrhau ein bod yn cynnwys ac yn ystyried partïon sydd â diddordeb yng nghyd-destun y sefydliad, a hynny o ran pwysau mewnol, allanol a chymdeithasol sy'n berthnasol i'w weithgareddau.

Gan ein bod yn Wasanaeth Tân ac Achub, rydym yn ceisio sicrhau bod ein **holl weithrediadau a gweithgareddau yn helpu i leihau'r effaith y mae tanau'n ei chael ar yr amgylchedd,** yn ogystal â helpu'r effaith y gallai tanau ei chael ar yr economi a'r gymdeithas leol. Yn hynny o beth, mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at amcanion ac ymwybyddiaeth amgylcheddol, gan helpu i wella'r Gwasanaeth a chreu dyfodol cynaliadwy.

# Cyflwyniad



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) **wedi ymrwymo i ragoriaeth**, ac mae ganddo weledigaeth o fod yn sefydliad o'r radd flaenaf. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynyddol yr angen i amddiffyn yr amgylchedd a gwarchod ei adnoddau gwerthfawr.

Mae ardal y Gwasanaeth **yn ymestyn dros 4,500 milltir sgwâr** o dir sy'n wledig yn bennaf, sef bron **dwy ran o dair o dir Cymru**. Mae'r ardal hon yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Rydym yn cyflogi **tua 1,300 o staff** , sy'n darparu cymorth gweinyddol a gweithredol ledled **58 o Orsafoedd Tân.**

Trwy ei Bolisi Amgylcheddol a'i ganllawiau, ei strategaethau a'i dystysgrifau amgylcheddol, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i **leihau ei effaith negyddol ar yr amgylchedd**. Mae ein nodau a'n hamcanion presennol o ran cynaliadwyedd a'r amgylchedd wedi'u cynllunio i weithio tuag at ddatblygu ein gweithgareddau a'n gweithrediadau mewn modd cynaliadwy, a hynny gyda chymorth amrywiaeth eang o weithdrefnau a chanllawiau amgylcheddol.

Mae ein Gwasanaeth wedi **ymrwymo i fod yn Wasanaeth sy'n amgylcheddol gyfrifol ac**, yn hynny o beth, rydym wedi cynnal **System Reoli Amgylcheddol Lefel 5 o ran Safon y Ddraig Werdd ers chwe blynedd**. Rydym yn adrodd yn flynyddol ar berfformiad, amcanion amgylcheddol a thargedau, er mwyn sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae hefyd yn amlygu cyflawniadau amgylcheddol y Gwasanaethau a'n hamcanion ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.



# Ein Hamgylchedd



Yn rhan o Gynllun Corfforaethol y Gwasanaeth ar gyfer 2019, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu chwe Nod Strategol sy'n amlinellu ein cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r nodau hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Un o'r Nodau Strategol yw 'Ein Hamgylchedd.'

Nod y Gwasanaethau yw gwella ein harferion a'n gweithgareddau yn barhaus, gan roi ystyriaeth i'n heffaith amgylcheddol byrdymor a hirdymor.

Byddwn yn parhau i geisio lleihau ein hôl troed carbon ac yn parhau â'n gwaith ymchwil i dechnoleg adnewyddadwy, gynaliadwy, werdd ar gyfer ein fflyd ac adeiladau, gan chwilio am gyfleoedd i gydweithredu, ar yr un pryd, er mwyn gwella ein heffaith ar yr amgylchedd.

Dyma un o nodau'r Gwasanaeth i helpu i gyrraedd y nodau Llesiant.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod cyfrifoldebau cyfreithiol ar Sefydliadau Statudol i ystyried, mewn modd gweithredol, effaith eu gweithgareddau, ynghyd â'r modd y gallai'r gweithgareddau hynny effeithio ar breswylwyr y blaned yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol am ei chwe Nod Strategol: Ein Hamgylchedd, Ein Partneriaethau, Ein Dyfodol, Ein Cymunedau, Ein Pobl ac Ein Hadnoddau. Mae Asesiad Blynyddol Amcan Gwella a Lles y Gwasanaeth yn nodi sut yr ydym wedi cyfrannu at y nodau Llesiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Safon System Reoli Amgylcheddol 2016 y Ddraig Werdd

Mae Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn rhwymedigaeth wirfoddol sy'n dyfarnu achrediad i Sefydliadau sy'n cymryd camau gweithredu i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd. Yn 2014, cyflawnodd y Gwasanaeth Lefel 5, sef y lefel uchaf sydd ar gael o ran System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

Ym mis Chwefror 2019, llwyddodd y Gwasanaeth i gynnal ei achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd am y chweched flwyddyn yn olynol. Mae Lefel 5 Safon y Ddraig Werdd yn gymaradwy ag ISO 14001: 2015 a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol ac Archwilio (EMAS).

Mae'r Safon yn dangos bod y Gwasanaeth wedi ymrwymo i reoli'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd, ac mae'n dangos ein bod yn ymwybodol o'r effaith hon ac yn gweithio'n weithredol i'w lleihau. Rydym yn deall ein cyfrifoldebau amgylcheddol ac yn gweithio'n unol â nhw, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein hôl troed amgylcheddol yn barhaus.

Mae'r Safon yn rhoi sicrwydd sydd wedi'i ddilysu'n allanol i'n rhanddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb bod ein harferion, ein prosesau a'n gweithdrefnau amgylcheddol yn effeithiol, a'n bod yn cydymffurfio'n foddhaol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth am ardystiad y Ddraig Werdd, ewch i Wefan y Ddraig Werdd **yma.**

# Adolygiad Rheoli Amgylcheddol

Y Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd sy'n gyfrifol am oruchwylio proses y System Reoli Amgylcheddol. Yn rhan o'r system honno, mae yna nifer o ddyletswyddau sy'n ofynnol i sicrhau effeithiolrwydd y system ac, felly, i gyflawni'r amcanion amgylcheddol.

Cynhaliwyd adolygiad o System Reoli Amgylcheddol GTACGC ym mis Ionawr 2019 i sicrhau ei haddasrwydd, ei digonolrwydd a'i heffeithiolrwydd parhaus.

Yn ystod yr adolygiad, trafodir perfformiad mewn perthynas â'r nodau a'r targedau, ynghyd ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r System Reoli Amgylcheddol. Trafodir hefyd y materion canlynol:

- Camau gweithredu y mae angen rhoi sylw iddynt oddi ar y cyfarfodydd blaenorol;
- Adolygiad o berfformiad;
- Adroddiadau ar anghydffurfiaeth ac adroddiadau ar ganlyniadau Archwiliadau;
- Adolygiad o'r cyflawniadau yn unol â'r amcanion a'r targedau cyfredol;
- Gosod amcanion a thargedau;
- Adolygiad o'r Polisi, y Gweithdrefnau a'r Canllawiau Amgylcheddol;
- Adolygiad o'r anghenion o ran hyfforddiant amgylcheddol;
- Adolygiad o effeithiolrwydd y prosiectau amgylcheddol yr ymgymerodd y Gwasanaeth â nhw.

Mae'r Adolygiad o'r Broses Reoli yn mynd i'r afael â'r angen posibl i newid y dogfennau amgylcheddol a sicrhau bod yna ymrwymiad parhaus a chynnydd o ran gwelliant amgylcheddol.

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn y Gwasanaeth

Yn 2015, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei ail strategaeth bum mlynedd, sef Strategaeth Cynaliadwyedd a’r Amgylchedd ar gyfer 2015-2020, sy’n nodi ein hymrwymiad i arferion cynaliadwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, **nid yw’r Gwasanaeth wedi cofnodi unrhyw achos o dorri deddfwriaeth amgylcheddol, nac unrhyw achos o fod yn gyfrifol am unrhyw ddigwyddiadau’n ymwneud â llygredd.**


### AILDDEFNYDDIO AC ADNEWYDDU DEUNYDDIAU

Mae’r Gwasanaeth yn defnyddio fframweithiau busnes a gefnogir, er enghraifft fframwaith Dodrefn Gwerth Cymru, ac, ar hyn o bryd, mae’n gweithio gyda’r Weinyddiaeth Ddodrefn i ddefnyddio dodrefn a ailgylchwyd; er enghraifft, defnyddiwyd dodrefn wedi’u hailgylchu i ddodrefnu’r swyddfa T2020 ym Mhencadlys y Gwasanaeth, yn ogystal â’r prosiect i adnewyddu y tu mewn i Orsaf Dân Llanfair Caereinion.

Yn ogystal â’r amodau caffael cynaliadwy, **gofynnir i’n cyflenwyr a’n contractwyr ddatgan eu cymwysterau amgylcheddol** a chadarnhau eu dealltwriaeth o’n disgwyliadau o’r Gwasanaeth fel sefydliad sy’n cydymffurfio ag ymrwymiadau ac amcanion llym o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

## Yr Hierarchaeth Gwastraff

Mae gan GTACGC rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried yr hierarchaeth gwastraff wrth drin gwastraff. Mae'r hierarchaeth yn nodi, yn ôl trefn blaenoriaeth, yr opsiynau i'w hystyried o ran rheoli gwastraff. Mae'n rhestru'r opsiynau o ran rheoli gwastraff yn ôl yr hyn sydd orau ar gyfer yr amgylchedd, ac mae'n rhoi pwyslais ar atal gwastraff cyn ailddefnyddio ac ailgylchu. Dim ond ar ôl ystyried yr opsiynau hyn y dylai gwastraff gael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.




Mae'r Gwasanaeth yn ailddefnyddio deunyddiau sydd dros ben yn fewnol ac yn allanol, lle bo hynny'n bosibl, yn enwedig yn achos y sefydliadau isod:

- Mae'r Gwasanaeth wedi rhoi llawer iawn o ddodrefn swyddfa ail-law i Sefydliad Enfys (sy'n uwchgylchu dodrefn ar gyfer pobl ddifreintiedig);
- Mae holl deiars treuliedig y Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV) yn cael eu dychwelyd i ATS, sy'n eu harchwilio ac yna'n eu hailgylchu i greu meysydd chwarae a gorchuddion ardaloedd ar gyfer caeau chwarae plant.

## Caffael Cynaliadwy

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda Busnes Cymru a'i ragflaenydd er tua 14 blynedd er mwyn chwalu'r rhwystrau i alluogi Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) i dendro am waith yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' ar gyfer prosiectau mawr i alluogi busnesau bach a chanolig i gynnig am gyfleoedd is-gontractio: e.e. prosiectau adeiladu Llandrindod ac Aberystwyth. Mae'r Gwasanaeth wedi'i gofrestru ar gyfer Siarter Drysau Agored Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys nifer o ymrwymiadau o ran sicrhau bod y broses dendro yn haws ar gyfer BBaChau. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys cymalau yn ei gontractau sy'n annog cyflenwyr i ddatblygu ymagwedd ragweithiol at gydraddoldeb a materion moesegol ac amgylcheddol, ac mae'r personél caffael yn cael hyfforddiant ar gynaliadwyedd. Mae'r Gwasanaeth yn mynnu cynhyrchion ecogyfeillgar mewn manylebau, lle bo hynny'n bosibl, e.e. fframweithiau cyflenwi deunydd ysgrifennu a deunydd porthorol. Yn ystod diwedd 2018, ymunodd GTACGC â Chynllun Copïwr Cymru Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng Lyreco. Ein Gwasanaeth oedd y corff sector cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i ymrwymo i'r cynllun, a oedd yn golygu ein bod yn prynu papur eco 100% ailgylchadwy Steinbeis trwy Lyreco, ac yna'n defnyddio Elite Paper Solutions i waredu ein holl wastraff cyfrinachol ledled y chwe Ardal Reoli. Mae Elite Paper Solutions yn fusnes a gynorthwyir sydd wedi'i sefydlu i gynorthwyo pobl ag anableddau i gael a chynnal cyfleoedd cyflogaeth â thâl yn eu cymuned leol ym Merthyr Tudful.

## Agweddau ac Effeithiau

Mae gan GTACGC nifer o agweddau ac effeithiau amgylcheddol sy'n ymwneud â'n gweithrediadau bob dydd. Agweddau amgylcheddol yw'r elfennau o weithgareddau GTACGC a allai effeithio ar yr amgylchedd. Datblygwyd Cofrestr ar sail yr Adolygiad Amgylcheddol Cychwynnol ac ar sail ystyried gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth. Ymdrinnir â'r rheiny y mae iddynt effeithiau arwyddocaol yn nogfen y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol.

Adolygir y trosolwg o'r agweddau arwyddocaol yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac i sicrhau nad oes angen cynnwys unrhyw agweddau nac effeithiau arwyddocaol newydd.

Mae yna gymysgedd o agweddau yn y Gofrestr yr ystyrir eu bod yn cael effaith ledled y Gwasanaeth, gan gynnwys meysydd tebyg i Lygredd Aer, Llygredd Dŵr, Rheoli Gwastraff ac Ynni. Mae gan GTACGC bum agwedd arwyddocaol yr ystyrir eu bod yn risg uchel:

- Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi;
- Llygredd Dŵr a Draenio Safleoedd;
- Y defnydd o ynni a chynhyrchu $CO_2$;
- Cerbydau Fflyd a theithio busnes;
- Llygredd posibl mewn perthynas â Diffodd Tân

Disgrifir y meini prawf ar gyfer gwerthuso yn fanylach yn ein Safon Rheoli Amgylcheddol. Mae'r meini prawf ar gyfer yr agweddau a'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn cael eu pennu trwy gyfrwng y canlynol:

- asesu graddfa'r agwedd a'r effaith;
- penderfynu a yw'r agweddau'n cael eu rheoli gan unrhyw ddeddfwriaeth;
- penderfynu a yw'r agwedd yn fygythiad i enw da corfforaethol, a
- phenderfynu a yw'r agwedd yn effeithio ar allyriadau carbon y sefydliad.

Mae'r Gofrestr Agweddau ac Effeithiau wedi'i chynnwys yng nghylch gwaith dilysu Allanol Blynyddol y Ddraig Werdd sy'n sicrhau cydymffurfiaeth.

# Perfformiad Amgylcheddol – Ystadegau a Phrosiectau


Mae GTACGC yn ceisio gwella ein heffaith a'n perfformiad Amgylcheddol yn barhaus, a hynny mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned i leihau tanau bwriadol, lleihau allyriadau carbon ein fflyd, a sicrhau bod ein hadeiladau mor effeithlon â phosibl, gan leihau faint o ynni a ddefnyddir. Rydym yn monitro ac yn dogfennu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n ein galluogi i graffu'n fisol ar ein cynnydd. Rydym wedi gwneud cynnydd rhagorol mewn perthynas â'r amcanion yn Strategaeth Cynaliadwyedd Pum Mlynedd ein Gwasanaethau ar gyfer 2015-2020.

Yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, ein nod yw lleihau Ôl Troed Carbon y Gwasanaeth, cynyddu nifer y paneli solar ffotofoltäig a osodir ar ein Gorsafoedd Tân, defnyddio technoleg wyrddach i gynhesu a rheoli ein Gorsafoedd Tân, parhau i ymgorffori Cerbydau Trydan neu Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau yn rhan o'n Fflyd, a pharhau i weithio tuag at darged o sero gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Nod y Gwasanaeth yw lleihau ein hallyriadau carbon flwyddyn ar ôl blwyddyn, a hynny'n unol â'n Hamcanion Amgylcheddol, yn ogystal â chydymffurfio â'r targed a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Arddangos Tystysgrifau Ynni

Yn unol â Pherfformiad Ynni y Rheoliadau Adeiladu, rydym wedi gosod Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos (DEC) yn 23 o'n hadeiladau sy'n gymwys.




Mae DEC yn cael eu harddangos yn glir yn unrhyw rai o adeiladau'r Gwasanaeth y gall aelodau'r cyhoedd eu cyrchu ac sydd ag arwynebedd llawr dros 250 m2. Mae'r Tystysgrifau hyn yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad ynni yr adeilad, yn ogystal â'n cynorthwyo i nodi'r adeiladau llai effeithlon a blaenoriaethau mesurau gwelliant, fel y bo'n briodol.

**Arddangosir DECs yn y lleoliadau Gwasanaeth canlynol:**

- Gorsaf Dân Aberystwyth;
- Gorsaf Dân Aberhonddu;
- Gorsaf Dân Llanfair-ym-Muallt;
- Gorsaf Dân Caerfyrddin;
- Pencadlys Cartref-y-Gelli;
- Pencadlys y Ganolfan Gynadledda;
- Bloc Llety Coed-yr-iarll;
- Cyfleuster Hyfforddi Coed-yr-iarll;
- Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin;
- Gorsaf Dân Hwlffordd;
- Gorsaf Dân Llandrindod;
- Gorsaf Dân Llanelli;
- Gorsaf Dân Aberdaugleddau;
- Bloc Gweinyddu Treforys;
- Gorsaf Dân Treforys;
- Gorsaf Dân Castell-nedd;
- Gorsaf Dân y Drenewydd;
- Gorsaf Dân Doc Penfro;
- Ardal Reoli Sir Benfro;
- Gorsaf Dân Pontardawe;
- Gorsaf Dân Port Talbot;
- Gorsaf Dân Abertawe Canolog;
- Gorsaf Dân Gorllewin Abertawe

## Defnyddio Ynni

Mae GTACGC yn defnyddio swm sylweddol o ynni i bweru'r rhwydwaith o swyddfeydd a Gorsafoedd Tân. Rydym yn cydnabod bod cynhyrchu a defnyddio ynni yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, a hynny trwy ddefnyddio adnoddau cyfyngedig ac allyrru nwyon tŷ gwydr.

Ddiwedd mis Awst 2018, newidiodd GTACGC ei gyflenwr trydan i gwmni sy'n cynhyrchu trydan o ffynonellau cynaliadwy ac adnewyddadwy.

Caiff y defnydd o drydan a nwy ei fonitro bob mis trwy'r ddwy ffurflen F25, a lenwir gan bersonél o bob lleoliad Gwasanaeth, yn ogystal â Darllenwyr Mesuryddion Awtomatig ar gyfer pob safle sy'n defnyddio Nwy. Mae'r defnydd yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i fonitro perfformiad ac i amlygu unrhyw gynnydd neu ostyngiad sylweddol yn y defnydd fesul Ardal Reoli.

| YNNI | 2017/18 (kWawr) | 2018/19 (kWawr) | NEWID % BLYNYDDOL |
|---|---|---|---|
| **Trydan** | 2,444,689.7 | 2,626,677.6 | Cynnydd o 7.4% |
| **Nwy** | 374,940.77 | 356,854.00 | Cynnydd o 4.8% |

Mae yna gynnydd yn ein defnydd o drydan, y gellir ei briodoli i'r cynnydd mewn gwaith adeiladu a gosod yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn ogystal â gwell arferion adrodd o Orsafoedd, sy'n arwain at ffigur uwch a chywirach.

Mae yna ostyngiad yn y defnydd o nwy o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a allai fod oherwydd y tywydd mwynach a gwelliant o ran monitro trwy'r Darllenwyr Mesuryddion Awtomatig.

Yn ogystal â defnyddio nwy a thrydan, mae gan GTACGC saith tanc olew gwresogi ar bum safle. Caiff y rhain eu monitro trwy ddefnyddio unedau trosglwyddo technoleg Watchman, sydd wedi'u gosod ar y tanciau ac sy'n rhoi rhybudd pan fo'r stoc yn mynd yn brin neu os oes yna broblem â'r tanc, er enghraifft gollyngiad.

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Y defnydd o olew (litrau)** | 41,188 | 45,052 |

Gellir priodoli'r cynnydd yn y defnydd o olew i'r ffaith fod amserlen archebu'r olew gwresogi ar gyfer y Gorsafoedd wedi gorgyffwrdd â'r flwyddyn ariannol.

Mae'r holl danciau olew naill ai'n rhai sydd â chroen dwbl neu'n rhai a ddelir mewn bwnd addas; mae cyflwr y tanciau yn cael ei archwilio'n rheolaidd yn ystod Archwiliadau Amgylcheddol Mewnol o'r Orsaf, neu gan beirianwyr cymwys allanol. Mae gweithdrefnau argyfwng ar waith rhag ofn i olew gael ei ollwng naill ai gan yr Orsaf neu gan y gyrwyr sy'n ailgyflenwi'r tanciau. Mae yna hefyd becyn cymorth yn ymyl pob tanc olew, er mwyn delio ag unrhyw broblemau neu ollyngiadau.

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 hefyd yn sicrhau bod mesurau pellach ar waith i warantu na chaiff unrhyw olew ei ollwng i'r amgylchedd cyfagos.

## Allyriadau Carbon

Mae'r allyriadau carbon a gynhyrchir gan y Gwasanaeth yn cael eu mesur bob blwyddyn i fonitro ein heffaith gyffredinol ar yr amgylchedd. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio lleihau ein hallyriadau carbon bob blwyddyn trwy feithrin ymwybyddiaeth o'r defnydd o ynni, cynnal ymgyrchoedd amgylcheddol i leihau allyriadau gan Orsafoedd, gosod paneli solar ar adeiladau'r Gwasanaeth, a defnyddio technoleg werdd mewn Gorsafoedd, lle bo hynny'n bosibl.

Daw'r ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo'r allyriadau carbon o ffactorau trawsnewid DEFRA, a gyhoeddir ar ei gwefan. Mae'r ffactorau trawsnewid carbon hyn yn newid bob blwyddyn, ac adlewyrchir hyn yn ein dull monitro.

Mae'r allyriadau Carbon sy'n ymwneud ag ynni (mewn tunelli metrig) wedi'u nodi isod.

| YNNI | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Trydan** | 859.4 | 743.5 |
| **Nwy** | 69 | 65.6 |
| **Olew** | 10.1 | 11.1 |

**Ffactorau TRAWSNEWID TRYDAN: 0.35156 ar gyfer 2017-18 a 0.28307 ar gyfer 2018-19**
**Ffactorau TRAWSNEWID NWY: 0.18416 ar gyfer 2017-18 a 0.18396 ar gyfer 2018-19**
**Ffactorau TRAWSNEWID OLEW: 0.24659 ar gyfer 2017-18 a 0.24665 ar gyfer 2018-19**

Diben gwahanu'r allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn Gwmpasau yw osgoi cyfrif allyriadau'r Gwasanaeth ddwywaith, a gall hyn helpu sefydliadau i nodi'r hyn y gallant ei reoli'n uniongyrchol o gymharu â pha allyriadau y gallant ddylanwadu arnynt. (Cwmpas 3)

O blith y tri math o allyriadau carbon, mae dau yn berthnasol i GTACGC, sef Cwmpas 1 – Allyriadau Uniongyrchol, a Chwmpas 2 – Allyriadau Anuniongyrchol. Ar hyn o bryd, nid yw GTACGC yn cofnodi allyriadau Cwmpas 3.

| CWMPAS 1<br>YR HOLL ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR O FFYNONELLAU SY'N EIDDO I'R SEFYDLIAD NEU A REOLIR GAN Y SEFYDLIAD | CWMPAS 2<br>ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR ANUNIONGYRCHOL O GANLYNIAD I DDEFNYDDIO TRYDAN, GWRES NEU AGER A BRYNIR |
|---|---|
| ▪ Hylosgi tanwyddau ffosil ar gyfer gwresogi – nwy neu olew trwm<br>▪ Hylosgi diesel a ddefnyddir wrth weithredu cerbydau'r fflyd<br>▪ Allyriadau sy'n ffoi | ▪ Trydan, gwres ac ager a brynir ac a gynhyrchir y tu allan i'r sefydliad |

Mae'r tabl isod yn dangos ein hallyriadau mewn tunelli metrig o CO2e y flwyddyn (tunelli metrig).

| | CWMPAS 1 | CWMPAS 2 |
|---|---|---|
| **2018/19** | 953.75 | 743.53 |
| **2017/18** | 1313.5 | 859.4 |

## Ynni Adnewyddadwy

Ar hyn o bryd, mae saith lleoliad yn y Gwasanaeth yn cynnwys Paneli Solar Ffotofoltäig, gyda'r paneli diweddaraf wedi cael eu gosod ym Mhencadlys y Gwasanaeth ac ar safleoedd Hyfforddi Coed-yr-iarll ym mis Mawrth 2019.

- Gorsaf Dân Aberystwyth;
- Gorsaf Dân Dyffryn Aman;
- Cyfleuster Hyfforddi Coed-yr-iarll;
- Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin;
- Gorsaf Dân Llanelli;
- Gorsaf Dân Treforys;
- Gorsaf Dân Hendy-gwyn ar Daf.

Hyd yma, mae'r Paneli Solar Ffotofoltäig wedi cynhyrchu'r ffigurau canlynol ers iddynt gael eu gosod:

| | Y TÂL SYDD WEDI DOD I LAW **HYD AT FIS MAWRTH 2019** |
|---|---|
| **Cyfanswm y tâl a gynhyrchwyd** | £15,311.04 |



## Fflyd y Gwasanaeth

Mae gan GTACGC tua 330 o gerbydau yn ei fflyd, gan gynnwys cerbydau gweithredol a cherbydau cronfa anweithredol. Oherwydd tirlun gwledig helaeth yr ardal o Gymru lle rydym yn gweithredu, ac oherwydd natur y Gwasanaeth fel ymatebydd mewn argyfwng, gall hyn gyfyngu ar ein hopsiynau wrth ystyried cludiant ar gyfer y gofynion Gweithredol.

Er gwaethaf hyn, rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau i'n fflyd sy'n cael eu trafod yn fanylach isod. Rydym yn parhau i ystyried rhagor o ddewisiadau amgen gwyrdd, ac yn ymchwilio i dechnoleg gynaliadwy.

Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth o'r ddwy flynedd ariannol flaenorol o ran y diesel a ddefnyddiwyd a'r allyriadau carbon a ddeilliodd o hynny. Darparwyd y ffigurau canlynol gan yr Adran Peirianneg Fflyd a Logisteg.

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Diesel (litrau)** | 465,800 | 338,086.47 |
| **tCO$^{2}$e** | 1244.5 | 888.1 |

**Ffactor TRAWSNEWID DIESEL (LITRAU):**
**2.67193 ar gyfer 2017-18 a 2.62694 ar gyfer 2018-19**

Mae gostyngiad wedi bod yn y defnydd o ddiesel o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gellir priodoli hyn i'r ffaith fod cerbydau Hydrogen wedi cymryd lle'r cerbydau diesel, yn ogystal â'r cynnydd o ran rhannu ceir a dulliau eraill o deithio.

O ganlyniad i gyfleoedd cyllido gan y Llywodraeth a chyllid gan y Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (OLEV), gallwn gyflawni gwelliannau cynaliadwy i'n fflyd, a byddwn yn parhau i weithio tuag at adeiladu Fflyd Werdd Gynaliadwy ar gyfer y Gwasanaeth.



## Prosiect Corfforaethol Cerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau (ULEV

Tra bo **Fflyd Werdd Sero Allyriadau** y Gwasanaeth yn cynyddu'n raddol, cymeradwywyd Prosiect Corfforaethol i ganoli'r adroddiadau ar y cerbydau Sero Allyriadau yn Fflyd y Gwasanaeth. Bydd y Grŵp Prosiect ar gyfer hyn yn cynnal ei gyfarfod cychwynnol ym mis Ebrill 2019, a bydd yn adrodd yn rheolaidd i'n Bwrdd Gweithredol.

Mae Cerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau (ULEV) bellach yn chwarae rhan fawr yn amcanion ein Cynllun Teithio Gwyrdd, gan leihau ein hallyriadau uniongyrchol i'r aer ac amlygu ein hymrwymiad i wella'r amgylchedd yn barhaus.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd cerbydau tanwydd ffosil ar ddiwedd eu hoes yn cael eu disodli gan gerbydau trydan sydd ag allyriadau o sero. Bydd gweithgorau'n cael eu sefydlu er mwyn gwneud penderfyniadau ar fathau o gerbydau, lleoliadau strategol y pwyntiau gwefru, a'r broses o ddyrannu cerbydau, gyda'r rhain yn cael eu casglu a'u cofnodi o dan Brosiect Corfforaethol ULEV. Disgwylir i'r prosiect hwn redeg am o leiaf blwyddyn i sefydlu cynllun strategol ac amserlen waith, lle disgwylir i'r cerbydau gael eu disodli gan ddewisiadau ULEV amgen wedi hynny, a bydd y seilwaith gwefru yn parhau i ehangu fel mater o drefn.

## Prosiect y Cerbydau Hydrogen




Ar hyn o bryd, mae gan y Gwasanaeth ddau Gerbyd Trydan â Chelloedd Tanwydd (FECV) Hyundai ix35, sy'n defnyddio tanwydd hydrogen, yn ein fflyd i'w defnyddio yn yr Adrannau Lleihau Risgiau Cymunedol a Diogelwch Tân Busnesau. Prynwyd y rhain gyda chymorth gan gyllid OLEV, ac maent bellach yn dod i ddiwedd eu hail flwyddyn yn rhan o Brosiect tair blynedd o hyd.

Mae'r cerbydau hyn yn rhan o broses o dreialu Cerbydau Allyriadau Isel yn y Gwasanaeth, a bydd yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer fflyd fwy gwyrdd yn y dyfodol, gan gynnwys Cerbydau Trydan a Cherbydau Hybrid.

Mae'r cerbydau hyn wedi'u lleoli mewn ardal sy'n adnabyddus am lygredd aer uchel, ac er mai dim ond rhan fach y maent yn eu chwarae, mae pob dim yn cyfrif o ran lleihau llygredd aer sy'n deillio o ffynonellau traffig ar y ffyrdd, a bydd y cerbydau hyn yn helpu i leihau ein hallyriadau carbon fel Gwasanaeth. Mae'r hydrogen ei hun yn cael ei gynhyrchu ar y safle yng Nghanolfan Ynni Baglan, a dŵr yw'r unig allyriad sy'n deillio o'r cerbyd.

Ers cyflwyno'r cerbydau i'n fflyd, mae'r cerbydau, at ei gilydd, wedi cyflawni'r canlynol:

| | HYD AT **FIS MAWRTH2019** |
|---|---|
| **Milltiredd** | 15,757 |
| **Gwrthbwyso CO2e** | 4.62 tunnell fetrig |

Yn ôl y wefan Carbonfootprint.com, mae'r Gwasanaeth wedi gwrthbwyso 4.62 tunnell fertig o CO2e trwy yrru ein dau Gerbyd Hydrogen am 15,757 milltir.

## Beiciau Trydan

Ym mis Gorffennaf 2017, prynodd y Gwasanaeth ddau feic trydan i'w defnyddio yn Ardaloedd Rheoli Abertawe a Chaerfyrddin, a hynny ar gyfer dyletswyddau Lleihau Risgiau Cymunedol. Mae'r adborth a ddaeth i law ynghylch y defnydd o'r e-feiciau wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac maent yn ddewis poblogaidd o ran teithio i gyflawni dyletswyddau Lleihau Risgiau Cymunedol. Mae'r beiciau wedi'u lleoli ar hyn o bryd yng Ngorsafoedd Llanelli, Caerfyrddin ac Abertawe.

Mae'r beiciau hyn yn helpu'r Gwasanaeth i weithio tuag at ein Cynllun Teithio Gwyrdd a'n Hamcanion Amgylcheddol o ran lleihau carbon, gan annog dewisiadau mwy cynaliadwy o ran dulliau teithio a gwella iechyd a lles aelodau o staff. Mae yna arbediad o ran costau mewn perthynas â thraul cerbydau, diesel a chostau parcio.

Hyd yma, mae un o'r e-feiciau wedi clocio 418 o filltiroedd, gyda'r daith fyrraf yn 1.9 milltir a'r daith gron bellaf yn 30 o filltiroedd.

Mae yna ymateb cadarnhaol wedi bod hefyd gan aelodau o'r cyhoedd wrth i bersonél gyrraedd ar feic yn hytrach na mewn cerbyd i gynnal archwiliad.

The Fire Fighters Charity

## Elusen y Diffoddwyr Tân

Er 2010, mae'r Gwasanaeth Tân wedi bod yn cynorthwyo Elusen Genedlaethol y Diffoddwyr Tân i godi arian trwy fanciau ailgylchu tecstilau a leolir ar 32 o iardiau ein Gorsafoedd. Mae swm y tecstilau y mae aelodau o'r cyhoedd wedi'i roi wedi bod yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-2019, o gymharu â'r cyfnod blaenorol, roedd yr incwm a gynhyrchwyd gan roddion y Gwasanaeth wedi cynyddu 8.4%.

| BLWYDDYN | KG O DDILLAD | YR INCWM A GYNHYRCHWYD |
|---|---|---|
| **2018/19** | 87,388 | £19,225.36 |
| **2017/18** | 75,091 | £16,502.02 |
| **2016/17** | 69,835 | £15,231.70 |

Hyd yma, mae'r biniau elusennol wedi casglu cyfanswm o 394,691 kg o ddillad a thecstilau, sydd wedi arwain at gyfanswm sylweddol gwerth £86,322.22. Mae'r rhoddion o'r Banciau yn cael eu casglu naill ai bob wythnos neu bob pythefnos, ac yn cael eu hailwerthu neu eu hailgylchu. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn mynd i safleoedd tirlenwi.

## Cynlluniau Aberthu Cyflog

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig nifer o Gynlluniau Aberthu Cyflog i'w staff er mwyn helpu i leihau effaith cerbydau a thechnoleg ar yr amgylchedd. Mae hyn yn helpu'r gweithwyr i gael gafael ar gerbydau modern, sy'n fwy diogel ac sy'n arbed tanwydd, a hynny ar gost sy'n is na'r prisiau arferol mewn garej. Mae'r cynllun yn helpu i leihau ôl troed carbon y Gwasanaeth trwy annog y gweithwyr i brynu ceir newydd sy'n cynhyrchu llai o allyriadau carbon, neu i brynu beiciau seiclo.

Hyd yma, mae 37 o gerbydau newydd wedi ymuno â'r Cynllun Aberthu Cyflog am Gar, ac mae gan y cynllun beiciau 84 o gontractau beiciau newydd. Gellir gweld ffigurau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn y tabl isod.

| | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|
| **Y Cynllun Aberthu Cyflog am Gerbyd** | 28 | 31 |
| **Y Cynllun Aberthu Cyflog am Feic** | 37 | 56 |

## Gwastraff o'r Gweithdai

Mae gan y Gwasanaeth dri gweithdy penodedig lle caiff gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ei wneud ar y cerbydau. Mae gan bob un o'r gweithdai hyn gyfleusterau ailgylchu ar gyfer gwahanu gwastraff, gan gynnwys papur, plastig, alwminiwm, gwydr, gwastraff halogedig, batrïau cerbydau a metel sgrap. Mae hyn yn sicrhau bod gwastraff halogedig a pheryglus, er enghraifft olew injan, hen hidlenni olew a gwastraff amsugnol, yn cael eu trosglwyddo a'u gwaredu mewn modd diogel.

Mae'r holl fetel sgrap a gynhyrchir yn ein gweithdai yn cael ei ailgylchu trwy drefniant contract ffurfiol. Mae prif weithdy'r Gwasanaeth yng Nghoed-yr-iarll yn cael ei gynnwys yn Archwiliad Ailasesu allanol y Ddraig Werdd, a gynhelir yn flynyddol.

Mae'r ystadegau sy'n ymwneud â gwastraff y gweithdai yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn o ganlyniad i amlder y casgliadau a'r amserlen gwasanaethu.

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| **Metel Sgrap (tunelli metrig)** | 3.6 | 10.18 |
| **Gwastraff Amsugnol (kg)** | 264 | 323 |
| **Hidlenni Olew (kg)** | 342 | 685 |
| **Tanwyddau Cymysg (litrau)** | 200 | 610 |
| **Olew Injan (litrau)** | 2225 | 5603 |
| **Cydrannau Peryglus, e.e. Darnau o Gerbydau (kg)** | 400 | 450 |

Byddai rhagor o achosion o roi gwasanaeth yn ystod 2018-19 o gymharu â 2017-18 yn arwain at y gweithdai'n cynhyrchu mwy o wastraff.

Mae'r gwastraff o'r gweithdai yn cael ei reoli'n ganolog, ac mae'r gwaith hwn wedi'i symleiddio fel bod un prif gontractwr yn rheoli'r broses o gasglu a gwaredu'r rhan fwyaf o'r gwastraff peryglus, lle bo hynny'n bosibl, gan sicrhau bod y drefn yn haws i'w monitro.

Mae'r metel sgrap a gynhyrchir yn ein gweithdai yn cael ei ailgylchu trwy gontract ar wahân ag Awdurdod y Gwasanaeth Gwaredu (DSA). Mae'r DSA yn cynnig gwasanaeth casglu-i-waredu ar gyfer amrywiaeth eang o eitemau, er enghraifft:

- Cyfarpar Gweithredol;
- Cyfarpar Amrywiol Cyffredinol, gan gynnwys offer, ffonau, offer trydan;
- Peiriannau;
- Rhannau Cerbydau Diangen;
- Metel Sgrap;
- Teiars a Batris Cludadwy.

## Gwastraff ac Ailgylchu

Gan fod GTACGC yn sefydliad mawr, rydym yn cynhyrchu llawer o wastraff cyffredinol ac ailgylchadwy. Oherwydd hyn, mae monitro'r gwastraff yn hanfodol er mwyn i ni allu gwella ein cyfleusterau a helpu i atal cymaint o wastraff â phosibl rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae contractau ar waith yn lleol ar gyfer pob ffrwd wastraff, ac mae tablau cydymffurfiaeth gwastraff yn cael eu llenwi a'u diweddaru yn ôl y gofyn.

Mae cyfleusterau ailgylchu wedi cael eu gosod mewn sawl lleoliad ledled y Gwasanaeth ac mae casgliadau gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchadwy wedi cael eu sefydlu, lle bo hynny'n briodol. Ar hyn o bryd, mae'r amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu yn dibynnu ar ffrydiau gwastraff yr Orsaf Dân dan sylw, ond, yn gyffredinol, mae hyn yn cynnwys:

- **Papur Gwyn**
- **Cardbord**
- **Plastig**
- **Alwminiwm**
- **Batris**
- **Gwastraff Cyfrinachol**
- **Metelau**
- **Bwyd**
- **Llyfrau, cyfnodolion a phamffledi**
- **Offer trydanol ac electronig gwastraff**
- **Olewau a defnyddiau amsugnol budr**
- **Cetris**

Fel arfer, mae gwastraff cyffredinol yn cael ei gasglu o bob un o leoliadau'r Gwasanaeth. Mae manylion y gwastraff i'w gweld yn y tabl isod. Mae'r contractau'n cael eu hadolygu bob dwy flynedd a chaiff y ffigurau eu casglu yn ôl nifer y lifftiau a amlinellir yn y contract gwreiddiol gyda'r contractwyr Gwastraff.

| GWASTRAFF CYFFREDINOL AC AILGYLCHU | |
|---|---|
| **Ailgylchu Cymysg** | 36% |
| **Gwastraff Cyffredinol** | 64% |

Er mwyn helpu i leihau'r gwastraff ym Mhencadlys y Gwasanaeth, mae'r biniau sbwriel unigol wedi cael eu symud oddi tan y desgiau, ac mae biniau sbwriel canolog wedi cael eu gosod yn y swyddfeydd yn eu lle. Hyd yma, mae 152 o finiau sbwriel unigol wedi cael eu gwaredu er mwyn annog y staff i ailgylchu mwy o ddeunyddiau ym min canolog y swyddfa.

## Lleihau'r Defnydd o Blastig Untro



Yn 2019, penderfynodd y Gwasanaeth leihau faint o boteli dŵr untro a oedd yn cael eu prynu. Bydd cynllun peilot i annog pobl i ddefnyddio poteli amldro yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf/hydref 2019, ac adroddir ar ganlyniadau'r cynllun hwnnw yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

Os bernir bod y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy yn rhan o'r gweithgareddau bob dydd, bydd yn cael ei gyflwyno yn ehangach.

Dros y pum mlynedd diwethaf, bu cynnydd o bron 25,000 yn nifer y poteli dŵr a brynwyd. Rhagwelir y bydd y fenter hon yn lleihau nifer y poteli a ddefnyddir ac a waredir ledled y Gwasanaeth yn aruthrol.

Mae'r Ystafell Fwyta ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin a'r Caffi Cymunedol yng Ngorsaf Dân Aberystwyth wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio plastig untro trwy fabwysiadu pecynnau bwyd a chwpanau bioddiraddadwy yn lle hynny. Gyda Chynghorau a Fforymau Amgylcheddol lleol yn annog lleihau'r defnydd o blastig untro, dyma'r cam cyntaf i leihau ein heffaith.

## Ailgylchu Batris

Mae gan y Gwasanaeth gontract ar waith gyda BatteryBack ar gyfer casglu ac ailgylchu batris celloedd sych cludadwy. Ar hyn o bryd, mae yna 13 o leoliadau ledled y Gwasanaeth lle gellir storio'r batris i'w casglu gan BatteryBack. Cynhaliwyd pedwar casgliad yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019, o gymharu ag wyth casgliad yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac mae dadansoddiad o'r batris wedi'u hailgylchu i'w gweld isod:

| CYFNOD | BATRIS | ARBEDION CARBON |
|---|---|---|
| 2018-19 | 150kg | 84kg |
| 2017-18 | 273kg | 152.88kg |



## Bioamrywiaeth a Chadwraeth

Mae yna 58 o leoliadau yn ardal y Gwasanaeth sy'n cynnal Gorsafoedd Tân, Gweithdai Peirianwyr ac Adeiladau Gweinyddol. Ar y cyd â chontractwr Cynnal a Chadw'r Tir, rydym yn rheoli ac yn cynnal a chadw ein tir mewn modd sy'n amddiffyn ac yn gwella ein cynefinoedd presennol.


Rheolir ein holl safleoedd i annog, gwella ac amddiffyn y planhigion a'r anifeiliaid ar y safle hwnnw a'r tir cyfagos. O ganlyniad, mae rhai o'r safleoedd hyn bellach yn denu mwy a mwy o adar a phryfed amrywiol.

Er mwyn annog a chynyddu bioamrywiaeth, mae'r gwaith o gynnal a chadw'r tir yn cynnwys:

- **Rheoli Planhigyn Clymog Japan**
- **Cynnal a Chadw Coed**
- **Torri Porfa**
- **Casglu Dail**
- **Tocio Gwrychoedd/Llwyni**
- **Cynnal a Chadw Llwyni a Gwelyau Blodau**

Mae GTACGC yn gwasanaethu mewn nifer o safleoedd dynodedig. Mae gennym Gynlluniau Ymateb i Ddigwyddiad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, sy'n ystyried gwerth y safle mewn modd priodol a sensitif, ac yn adolygu'r broses yn rheolaidd.

Mae gennym nifer o Orsafoedd sydd ar ffin y safleoedd dynodedig, ond mae'r Gorsafoedd a gynhwysir yn uniongyrchol yn y safleoedd dynodedig wedi'u rhestru isod:




Mae ein holl beiriannau tân yn cynnwys 'Pecynnau Cydio' i atal llygredd amgylcheddol, sy'n cynnwys padiau amsugnol, pwti selio wedi'i wneud o glai, a matiau i selio draeniau. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio i gadw'r llygredd yn y ffynonellau cyn iddynt gael eu symud oddi yno gan gontractwyr arbenigol.

## Ymateb y Gwasanaeth – Unedau Diogelu'r Amgylchedd

Mae gan y Gwasanaeth dair Uned Diogelu'r Amgylchedd (EPU) arbenigol wedi'u lleoli'n strategol yng Ngorsafoedd Tân y Drenewydd, Llanelli a Doc Penfro. Defnyddir y cerbydau hyn i storio a chludo cyfarpar yn benodol ar gyfer atal llygredd amgylcheddol. Mae'r cyfarpar sy'n cael ei gadw ar yr Unedau yn helpu i leihau neu i liniaru effeithiau'r digwyddiadau y mae'r Gwasanaeth yn ymateb iddynt. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynnal a chadw'r cyfarpar. Gellir hefyd ddefnyddio'r Unedau Amgylcheddol i ddibenion dihalogi diffoddwyr tân, gan eu bod yn cynnwys cyfleuster ar gyfer cyfyngu dŵr ffo halogedig er mwyn lleihau'r niwed i'r amgylchedd.

Mae'r Unedau'n cynnwys cyfryngau sy'n amsugno cemegion ac olew, a ddefnyddir i atal y sylwedd rhag mynd i mewn i'r cyrsiau dŵr, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae yna hefyd amrywiaeth o ddarnau eraill o gyfarpar a ddefnyddir i ddelio â digwyddiadau gweithredol sy'n ymwneud â chemegion: bagiau vetter i selio gollyngiadau, peiriant niwmatig ar gyfer llwch peryglus, drymiau gorfaint, matiau draeniau, ac ati.

Prif ddiben yr unedau yw ymateb i argyfyngau amgylcheddol yn ardal GTACGC. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Nod y cydweithio hwn yw lleihau'r peryglon i'r amgylchedd, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol bosibl, o ganlyniad i drydydd partïon, llifogydd, a gweithgareddau'r gwasanaeth tân wrth iddo ddelio â digwyddiadau, ac mae'n annog mwy o gysylltu, cynllunio a hyfforddiant.

Dyma'r ystadegau o ran galwadau am Uned Diogelu'r Amgylchedd (EPU) yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Galwadau am EPU | 27 | 44 |

Mae GTACGC yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cael arweiniad yn ystod digwyddiadau sy'n peri risg uchel i'r amgylchedd. Yn ogystal â chydweithio yn ystod digwyddiadau brys, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflenwi eitemau traul i GTACGC i'w defnyddio yn ystod digwyddiadau, ac mae'r holl gostau'n cael eu hadennill gan yr 'unigolyn cyfrifol' yn dilyn digwyddiad lle y defnyddiwyd y cyfarpar.

Yng Ngorsaf Dân Gorllewin Abertawe, mae gennym gytundeb rhannu safle gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i storio offer monitro aer, ynghyd ag un o'u cerbydau.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn parhau â'r gwaith cadarnhaol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi'r Gwasanaeth o ran ein hyfforddiant a'n hymarferion, gan adeiladu ar y berthynas sydd eisoes yn bodoli.



## Diogelwch Tân Busnesau a Chymunedol

Atal tân yw un o nodau allweddol yr Adrannau hyn o'r Gwasanaeth. Er ei bod yn amhosibl pennu'n fanwl gywir y buddion uniongyrchol i'r gymuned, po fwyaf o danau y gellir eu hatal, mwyaf y bydd yr halogiad dilynol i'r amgylchedd hefyd yn cael ei atal. Mae timau Diogelwch Cymunedol a Diogelwch Tân Busnesau pwrpasol y Gwasanaeth yn sicrhau bod ein cymunedau, ein heiddo a'u hamgylcheddau yn cael eu hamddiffyn yn well rhag risgiau diarwybod a/neu effeithiau tanau bwriadol.

Mae'r Gwasanaeth yn gwneud hyn trwy ddarparu nifer o fentrau i leihau'r risg o danau mewn busnesau ac yn y gymuned, mentrau sy'n darparu negeseuon allweddol am y difrod y mae tanau bwriadol yn ei achosi i Fusnesau, i'r Gymuned yn gyffredinol, ac i'r amgylchedd.

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **Tanau Eiddo/Cerbydau/Addysg (Prif Danau)** | 1414 | 1360 | 1424 |
| **Tanau Glaswellt/Sbwriel (Tanau Eilaidd)** | 1526 | 1840 | 2305 |

Mae tanau glaswellt, coetir a chnydau a gynnwyd yn fwriadol wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn, gan y byddai'r tanau hyn wedi cael effaith uniongyrchol a dinistriol ar yr amgylchedd a'r fioamrywiaeth a allai fod yn nythu yno.



# Mesur a Monitro: Data Amgylcheddol

Mae mynediad at ddata amgylcheddol dibynadwy yn golygu y gall newidiadau o ran patrymau'r galw am adnoddau gael eu mapio, a hynny fel modd o ddarparu tystiolaeth o'r gwaith o reoli'r galw (neu beidio), ac yna gellir defnyddio'r data i gadarnhau gwelliannau amgylcheddol a'r arbedion o ran costau sy'n deillio o hynny. Ystyrir bod y gweithgarwch monitro hwn yn hanfodol o ran cyfiawnhau gwelliannau amgylcheddol yr adroddir arnynt.

## Rheoli Perfformiad

Mae yna raglenni ar waith i fesur yr agwedd ganlynol, ac adrodd amdani, a hynny naill ai bob mis neu bob chwarter.

- Nwy a Thrydan;
- Dŵr yfed;
- Olew tanwydd ar gyfer gwresogi a diesel ar gyfer cludiant;
- Deunyddiau gwastraff (plastig, papur, cardbord, gwydr, caniau alwminiwm, tuniau, metelau eraill, pren a gwastraff bwyd);
- Ailddefnyddio deunyddiau ac ailgylchu;
- Cyfraddau defnyddio rhai deunyddiau a brynir.

Mae argaeledd y data gwastraff yn amrywiol ac yn dibynnu ar gyfleusterau'r contractwyr. Trwy wella amlder a dibynadwyedd y data amgylcheddol a ddarperir, bydd yna fwy o gyfle i ymyrryd yn gyflym pan na chyflawnir yr amcanion amgylcheddol. Mae gwaith wedi cael ei wneud i wella systemau swyddfa gefn er mwyn gallu cael data cywir yn ôl yr angen.

# Hyfforddiant Amgylcheddol a Chydymffurfedd Gyfreithiol


## Hyfforddiant Amgylcheddol

Mae hyfforddiant ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd yn y Gwasanaeth yn cynnwys Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Amgylcheddol yn rhan o'r broses gynefino ar gyfer holl weithwyr y Gwasanaeth. Mae'r rhaglen gynefino yn codi ymwybyddiaeth o faterion allweddol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd, ynghyd â'r gweithdrefnau y mae'r Gwasanaeth yn eu cyflawni i leihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r hyfforddiant mewnol yn cynnwys meithrin ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy'r dulliau canlynol:

- Cyfathrebu mewnol ac Ymgyrchoedd Amgylcheddol;
- Cyflwyniadau ar Ymwybyddiaeth Amgylcheddol;
- Dosbarthu Taflenni Ffeithiau ac atodiadau ar gyfer hyfforddiant trwy'r system e-bost fewnol, a hynny ar faterion tebyg i ddata ar ynni a'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad amgylcheddol.

## Cydymffurfio â Deddfwriaeth Amgylcheddol



Fel sy'n ofynnol gan System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, mae'r Gwasanaeth yn cynnal cofrestr o'r ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i weithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth, ac mae'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r gofrestr yn cofnodi gofynion mwyaf cyffredin ein sefydliad, gan gynnwys y canlynol: Aer, Sŵn, Dŵr, Gwastraff, Tir, Planhigion ac Anifeiliaid.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y gofrestr hon bob amser yn gyfredol o ran yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol, ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau gwirfoddol, mae'r Gwasanaeth yn defnyddio System y Rheolwr Cydymffurfedd Gyfreithiol, sef gwasanaeth diweddaru amgylcheddol sy'n ein galluogi i nodi a dosbarthu deddfwriaeth gymwys mewn modd hawdd ac effeithlon.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth, rydym yn ategu at hyn trwy groesgyfeirio'n rheolaidd â'r wybodaeth sydd ar wefan y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA), sy'n cyrchu ei wybodaeth trwy Systemau Gwybodaeth Cedrec, yn ogystal â chyfeirio at wybodaeth o wefannau a chyfnodolion amgylcheddol.

## Datblygiadau ac ymgyrchoedd yn y dyfodol

Mae'r Gwasanaeth bob amser yn chwilio am syniadau a chyfleoedd arloesol i wella ei brosesau a'i effeithlonrwydd. O ran y bwriadau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â gwelliannau amgylcheddol, mae'r canlynol wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn 2019-2020:

- Datblygu a chyhoeddi ein trydedd Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd ar gyfer y pum mlynedd nesaf;
- Gwella ymwybyddiaeth a chymhelliad yr holl staff i ymddiddori yn yr amcanion gwella amgylcheddol;
- Rhoi'r Prosiect Corfforaethol Cerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau ar waith;
- Cynyddu nifer y Paneli Solar Ffotofoltäig sydd ar adeiladau'r Gwasanaeth;
- Cyflwyno agwedd cadwraeth amgylcheddol i'r mannau gwyrdd ar safleoedd y Gwasanaeth;
- Cydweithio â sefydliadau allanol ar Brosiectau Amgylcheddol;
- Gwella amlder a dibynadwyedd y ddarpariaeth data amgylcheddol;
- Gwella'r gwaith o gynllunio gofod ein hadeiladau, a'r defnydd a wneir ohonynt, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau o ran gwresogi/goleuo'r safleoedd;
- Gwella dulliau gwresogi a rheolaethau ein hystad, a buddsoddi mewn mentrau i droi ein hadeiladau yn "adeiladau clyfar";
- Sicrhau bod yr ynni sy'n cael ei storio o fatris yn cyd-fynd â mentrau Ffotofoltäig yn y dyfodol er mwyn dod yn niwtral o ran cost, gan na allwn werthu'r ynni hwnnw yn ôl i'r grid mwyach.



# MAE CYNALIADWYEDD YN GOLYGU GWELLA ANSAWDD BYWYD MEWN FFORDD NAD YW'N ACHOSI DIFROD PARHAUS I'R AMGYLCHEDD







# Amcanion, Targedau a Chanlyniadau Amgylcheddol ar gyfer 2018-19



| | AMCAN | TARGED | CANLYNIAD 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **AA1** | Adrodd am berfformiad amgylcheddol | **a)** Cyhoeddi Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol yn fewnol ac yn allanol o fewn y pum mis hyd at ddiwedd y flwyddyn Ariannol<br>**b)** Adrodd am berfformiad yn unol â'r amcanion amgylcheddol, gan eu mesur, eu monitro a'u rheoli mewn modd rhagweithiol er mwyn sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus<br>**c)** Llunio adroddiad i amlygu'r holl gyflawniadau a gwelliannau amgylcheddol | Cymeradwywyd a chyhoeddwyd pumed Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol erbyn diwedd haf 2018<br>Mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol<br>Mae gwelliannau amgylcheddol parhaus yn cael eu gwirio a'u hadolygu gan archwilwyr allanol yn rhan o Archwiliad y Ddraig Werdd |
| **AA2** | Hyrwyddo Strategaeth, Polisïau, Gweithdrefnau a Pherfformiad Amgylcheddol y Gwasanaeth | **a)** Sicrhau bod gwybodaeth am faterion amgylcheddol yn cael ei chyfleu i'r holl staff<br>**b)** Sicrhau bod yr holl bersonél yn ymwybodol o'r Strategaeth, y Polisi a'r Gweithdrefnau, a lle i ddod o hyd iddynt.<br>**c)** Meithrin ymwybyddiaeth Staff trwy gyfrwng yr Hyfforddiant Amgylcheddol | Mae'r holl ddogfennau Amgylcheddol ar gael ar safle @Work, ac maent yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen |
| **AA3** | Atal llygredd o leoliadau'r Gwasanaeth Tân | **a)** Cofnodi digwyddiadau sero llygredd yn unol â'r canllawiau ar Arfer Gorau<br>**b)** Sicrhau y cydymffurfir 100% â deddfwriaethau cyfredol a pherthnasol<br>**c)** Canolbwyntio ar ddatblygu amserlen o waith Draenio Safle | Dim digwyddiadau llygredd<br>Cydymffurfiwyd<br>Gwaith draenio safle i ddechrau tua chanol 2019 – creu cynlluniau a defnyddio system codau lliw ar gyfer draeniau pob Gorsaf. |
| **AA4** | Lleihau'r galw am ynni ac allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr. | **a)** Lleihau allyriadau ynni/nwyon tŷ gwydr 2% erbyn diwedd y flwyddyn 31/3/2019 (a hynny o gymharu â llinell sylfaen 2016-17)<br>**b)** Cynnwys strategaethau hirdymor ar gyfer arbed ynni yn y gwaith o gynllunio a datblygu. | Ni chyflawnwyd yr amcan<br>Paneli Solar Ffotofoltäig wedi cael eu gosod yng Nghoed-yr-iarll ac yn y Pencadlys |

| | AMCAN | TARGED | CANLYNIAD 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **AA5** | Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi Cofnodi a lliniaru risgiau sy'n deillio o wastraff a llygredd | **a)** Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi 2% o gymharu â llinell sylfaen 2017-18 **b)** Lleihau'r risg o lygredd trwy ddatblygu a rhoi arferion a gweithdrefnau rheoli gwastraff ecogyfeillgar ar waith **c)** Meithrin ymwybyddiaeth a chanolbwyntio ar egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff | Mae'r ffigurau'n cael eu cyfrifo bob dwy flynedd pan fydd y contractau'n cael eu hadnewyddu<br><br>Cwpanau a chynwysyddion bioddiraddadwy yn cael eu defnyddio yn y Pencadlys ac yn y Caffi yn Aberystwyth |
| **AA6** | Cydweithio â'r Adrannau Ystadau a Chaffael i leihau gwastraff | **a)** Nodi a gweithredu arferion atal, addasu at ddibenion gwahanol, ac ailddefnyddio **b)** Gwella cyfleoedd ailgylchu/adfer ledled y Gwasanaeth | Cynnydd o ran y casgliadau ailgylchu cymysg<br><br>Contract newydd wedi'i sefydlu ar y cyd ag Ardal Reoli Abertawe i wella'r gwaith monitro |
| **AA7** | Lleihau'r galw am danwyddau cludiant | **a)** Lleihau tanwydd 3% (ac allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr) erbyn diwedd y flwyddyn 31/3/2019 (a hynny o gymharu â llinell sylfaen 2016-17)<br><br>**b)** Ymgorffori cerbydau trydan a mannau gwefru yn rhan o Fflyd y Gwasanaeth | Ni chyflawnwyd yr amcan<br><br>Gosodwyd mannau gwefru cerbydau trydan ym Mhencadlys y Gwasanaeth ym mis Mawrth 2019. Prosiect Corfforaethol wedi'i gymeradwyo er mwyn adrodd am Gerbydau Isel Iawn eu Hallyriadau yn y dyfodol |



# Amcanion Amgylcheddol – 2019-20

Cred Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mai'r ffordd orau o nodi tystiolaeth o gyfrifoldeb corfforaethol dros reoli'r amgylchedd yw trwy bennu amcanion amgylcheddol ansoddol a meintiol, fel ei gilydd.

Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Gwasanaeth ar gyfer 2018-2023 a'r Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd ar gyfer 2015-2020, fel ei gilydd. Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio'r amcanion hyn i fesur ei berfformiad amgylcheddol.

Nid yw saith thema gyffredinol ein hamcanion perfformiad amgylcheddol ar gyfer 2019-20 wedi newid oddi ar 2018-19. Mae'r amcanion ar gyfer 2019-20 fel a ganlyn:

## Ein Hamcanion Amgylcheddol ar gyfer 2019/20

### AMCAN 1
Adrodd am berfformiad, yn chwarterol ac yn flynyddol, mewn perthynas â'r amcanion amgylcheddol, a hynny trwy ddulliau mesur, monitro a rheoli rhagweithiol, er mwyn sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus.

### AMCAN 2
Hyrwyddo Strategaeth, Polisïau, Gweithdrefnau a Pherfformiad Amgylcheddol y Gwasanaeth trwy eu cyfathrebu ledled y Gwasanaeth.

### AMCAN 3
Atal llygredd, yn unol â'r canllawiau ar Arfer Gorau a'r ddeddfwriaeth gyfredol, gan sicrhau cydymffurfedd llawn â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a chan ganolbwyntio ar ddraenio arwynebau ar y safle.

### AMCAN 4
Lleihau'r galw am ynni (ac allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr) 2% erbyn diwedd y flwyddyn 31/3/2020 (o gymharu â llinell sylfaen 2016-17), a chynnwys strategaethau hirdymor ar gyfer arbed ynni yn y gwaith cynllunio a datblygu

### AMCAN 5
Lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi 2% o gymharu â llinell sylfaen 2017-18. Cofnodi a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwastraff a llygredd trwy ddatblygu a gweithredu arferion a gweithdrefnau rheoli gwastraff ecogyfeillgar, gan ganolbwyntio ar egwyddorion yr hierarchaeth gwastraff (Atal, Ailddefnyddio, Ailgylchu a Gwaredu).

### AMCAN 6
Cydweithio â'r Adrannau Ystadau a Chaffael er mwyn nodi a gweithredu dulliau o atal, addasu at ddibenion gwahanol ac ailddefnyddio gwastraff, yn ogystal â gwella cyfleoedd i ailgylchu/adfer ledled y Gwasanaeth.

### AMCAN 7
Lleihau'r galw am danwyddau cludiant 3% (yn ogystal ag allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr) erbyn diwedd y flwyddyn 31/3/2020 ( o gymharu â llinell sylfaen 2016-17).

**Bydd adroddiad ar berfformiad mewn perthynas â'r targedau hyn yn cael ei ymgorffori yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol 2019-20.**

# Datganiad Amgylcheddol

Bydd yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol hwn ar gyfer 2018-19 yn cael ei ddilysu'n allanol gan Asesydd Cofrestredig yn rhan o Archwiliad o Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd, a hynny yn ystod y broses o ailasesu'r Safon Amgylcheddol.

## Atodiad: Ystadegau Amgylcheddol Perthnasol

| YSTADEGYN | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer yr ymatebion (y nifer a gymerodd ran yn yr Orsaf)** | 17,677 | 17,097 | 16,989 |

| CLUDIANT | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y galw blynyddol am DDIESEL (litrau)** | 435,220 | 465,800 | 338,086.47 |
| **Cyfanswm yr Allyriadau Carbon blynyddol (tCO2e) DIESEL** | 1,164 | 1,244 | 888.1 |

| YNNI | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y galw blynyddol am DRYDAN (kWawr)** | 2,350,171 | 2,444,689.7 | 2,626,677.6 |
| **Cyfanswm y galw blynyddol am NWY (kWawr)** | 379,898.45 | 374,940.77 | 356,854.00 |
| **Cyfanswm yr OLEW GWRESOGI blynyddol (litrau)** | 46,443 | 41,188.00 | 45,052.00 |
| **Cyfanswm yr allyriadau carbon blynyddol (tCO2e) TRYDAN** | 968.4 | 859.4 | 743.53 |
| **Cyfanswm yr allyriadau carbon blynyddol (tCO2e) NWY** | 69.9 | 69 | 65.6 |
| **Cyfanswm yr allyriadau carbon blynyddol (tCO2e) OLEW GWRESOGI** | 11.4 | 10.1 | 11.1 |

| DEUNYDDIAU GWASTRAFF | 2016/2017 | 2017/2018 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| **Gwastraff Cyffredinol (Tunelli metrig)** | Dim ystadegau ar gael | 64% (1383.5) | Dim ystadegau ar gael |
| **Ailgylchu Cymysg (Tunelli metrig)** | Dim ystadegau ar gael | 36% (656.6) | Dim ystadegau ar gael |
| **Amsugnyddion (Kg)** | 300 | 264 | 323 |
| **Hidlenni Olew (Kg)** | 564 | 342 | 685 |
| **Tanwyddau Cymysg (litrau)** | 650 | 200 | 610 |
| **Olew Injan (litrau)** | 2403 | 2225 | 5603 |
| **Cydrannau peryglus, e.e. Rhannau Cerbydau (kg)** | 150 | 400 | 450 |
| **Metel Sgrap (Tunelli Metrig)** | 4.26 | 3.6 | 10.18 |
| **Kg o ddillad (Elusen y Diffoddwyr Tân)** | 69,835 | 75,091 | 87,388 |
| **Batris – bach (kg)** | 151 | 273 | 150 |
| **Batris – allyriadau carbon (kg)** | 84.56 | 152.88 | 84 |



# ADRODDIAD GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU AR GYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD
# 5.40 – Polisi Amgylcheddol

## 1.0 CYFLWYNIAD

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd Awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. Mae wedi ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddiogelu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac am feithrin amgylchedd naturiol y rhanbarth. Mae'r Polisi Amgylcheddol hwn yn pennu Gweledigaeth ac Amcanion Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n arddangos ymrwymiad y Gwasanaeth i reoli effeithiau amgylcheddol ei weithgareddau ac i wella ei berfformiad amgylcheddol.

Trwy hyrwyddo'r Polisi hwn ledled y sefydliad, nod y Gwasanaeth yw annog gweithgareddau ecogyfeillgar a lleihau arferion afrad a niweidiol.

## 2.0 DIBEN

Mae'r Polisi hwn yn disgrifio'r modd y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ymdrin â materion amgylcheddol. Mae iddo bedwar prif ddiben:

- Mae'n arwydd o fwriad i arddangos ymrwymiad y Gwasanaeth i leihau unrhyw effaith negyddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'w weithgareddau;
- Mae'n darparu manylion yr ymrwymiadau y mae'r Gwasanaeth wedi eu gwneud i wella ei berfformiad amgylcheddol;
- Bwriedir iddo fod yn bwynt cyfeirio. Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio i lywio ein holl weithgareddau o ddydd i ddydd, a bydd ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i'r polisi hwn wrth i bolisïau gael eu datblygu neu eu hadolygu.
- Bwriedir i'r polisi hwn gefnogi Strategaeth Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol y Gwasanaeth.

## 3.0 CWMPAS

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â holl weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â changen Fasnachu'r Gwasanaeth, Achub 365, ac mae'n pennu nifer o ymrwymiadau a fydd yn helpu'r Gwasanaeth ac Achub 365 i wireddu eu gweledigaeth gorfforaethol.

Nid yw'r polisi hwn yn pennu'r union gamau i'w cymryd; bwriedir iddo fod yn ganllaw, nid yn gyfarwyddyd.

## 4.0 CEFNDIR

Er mwyn cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Cwmni Buddiant Cymunedol Achub 365 i wireddu eu gweledigaeth, mae angen i'r Gwasanaeth fod yn gynyddol ymwybodol o effaith ei weithgareddau ar yr amgylchedd, ac i weithio tuag at leihau unrhyw effaith amgylcheddol negyddol.

Mae'r rhan fwyaf o waith y Gwasanaeth yn cael rhyw fath o effaith ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys yr holl waith gweithredol, er enghraifft ymateb i danau, gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a digwyddiadau llygredd, yn ogystal ag ymdrin â sgileffeithiau digwyddiadau o'r fath; mae effeithiau amgylcheddol uniongyrchol eraill yn deillio o ddefnydd y Gwasanaeth o adnoddau.

Bydd angen i'r Gwasanaeth weithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod buddiannau gorau'r amgylchedd yn cael eu hystyried.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn awyddus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol mewn meysydd anweithredol tebyg i Drafnidiaeth, Caffael a Hyfforddiant, yn ogystal â'i holl swyddogaethau gweinyddol. Mae gan bob un o'r meysydd hyn ran i'w chwarae wrth sicrhau bod y Gwasanaeth yn bodloni ei amcanion ac yn cyrraedd ei dargedau amgylcheddol.

Cwmni Buddiant Cymunedol Achub 365 yw cangen fasnachu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Achub 365, a grëwyd i ddarparu hyfforddiant Rheoli Risgiau o ansawdd uchel, yn ogystal â chynhyrchion a gwasanaethau arbenigol eraill, yn ymfalchïo yn yr enw da y mae'n ei ennill yn ei rinwedd ei hun, gan gydnabod treftadaeth y sefydliad y mae wedi deillio ohono ar yr un pryd.

Mae Achub 365 yn endid bach, darbodus, sydd wedi modelu ei arferion rheoli a hyfforddi ar y rheiny a ddefnyddir gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Mae'n hyfforddi personél ar faterion amgylcheddol, ac yn ymgorffori'r arferion cyfredol gorau ymhob agwedd ar y gwaith o ddarparu ei gynhyrchion a'i wasanaethau.

Oherwydd hyn y mae'r Polisi Amgylcheddol – Datganiad o Fwriad hwn wedi cael ei greu.

## 5.0 Datganiad o Fwriad

**Polisi Amgylcheddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Datganiad o Fwriad**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydnabod bod ei weithrediadau a'i weithgareddau yn cael effaith ar yr amgylchedd. Wrth gynnal ei fusnes, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i leihau ei ddefnydd o adnoddau naturiol, yn ogystal â'i ôl troed carbon, gan atal llygredd a gwella ei berfformiad amgylcheddol mewn modd cynaliadwy, a hynny'n barhaus.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cadarnhau ymrwymiad i hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Wrth geisio gwireddu ei weledigaeth o fod "yn Sefydliad o'r Radd Flaenaf", ac wrth weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gefnogi ei gymunedau trwy gyfrwng ei raglenni ymwybyddiaeth ac addysg atal tân, a thrwy leihau ei effeithiau amgylcheddol andwyol ei hun, a hynny trwy leihau llygredd a gwastraff, ailgylchu mwy, a mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i wneud cyfraniad gwerthfawr at y gwaith o ddiogelu ei amgylchedd, a hynny trwy:

- Gael strategaeth i gadarnhau ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu'r amgylchedd;
- Sicrhau bod ein rhwymedigaethau cydymffurfio yn bodloni neu'n rhagori ar yr holl ofynion a chytundebau deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol hynny yn y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol sy'n ymwneud ag agweddau amgylcheddol y Gwasanaeth;
- Adrodd am berfformiad, amcanion amgylcheddol a thargedau yn flynyddol, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus;
- Hyrwyddo Strategaeth, Polisïau a Gweithdrefnau Amgylcheddol y Gwasanaeth ledled y Gwasanaeth;
- Darparu hyfforddiant penodol i gyflogeion ar eu cyfrifoldebau amgylcheddol;
- Ystyried materion amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau prynu ac wrth gynllunio a dylunio prosiectau, er mwyn sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw 'Egwyddor Drefniadol Graidd' y Gwasanaeth;
- Mabwysiadu mesurau lleihau dŵr a gwella'r defnydd cynaliadwy o adnoddau;
- Lleihau'r defnydd o ynni, a chynnwys strategaethau hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn gwaith cynllunio a datblygu;
- Hyrwyddo'r defnydd o gerbydau modur tanwydd-effeithlon, a mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy o deithio;
- Lleihau unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd sy'n deillio o ddarparu gwasanaethau mewn digwyddiadau gweithredol;
- Lleihau gwastraff a llygredd trwy ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau rheoli gwastraff ecogyfeillgar.
- Cynnal a chadw tir ac adeiladau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn modd sy'n ystyriol o'r amgylchedd, gan gadw mewn cof yr angen i warchod cynefinoedd naturiol lleol ac annog bioamrywiaeth;
- Gweithio gyda'n partneriaid, yn ogystal ag asiantaethau lleol a chenedlaethol eraill, fel y bo'n briodol, i hyrwyddo polisïau amgylcheddol ac 'Arfer Gorau', ac i ddiogelu'r amgylchedd.

Mae'r Datganiad hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Gwasanaeth i ddiogelu ein hamgylchedd uniongyrchol, yn ogystal â'r amgylchedd ehangach, rhag effeithiau ei weithgareddau. Adolygir ac adroddir bob blwyddyn am gynnydd tuag at ddatblygu a gweithredu strategaethau amgylcheddol. Bydd y Datganiad hwn, ynghyd â dogfennau cysylltiedig eraill, ar gael ar safle @Work a'r wefan allanol, yn ogystal ag mewn lleoliadau eraill, fel y bo'n briodol, a bydd yn destun adolygiad blynyddol.

**Chris Davies QSFM MBA**
Prif Swyddog Tân

**R Rees-Evans**
Cadeirydd yr Awdurdod Tân

5ed Rhagfyr 2018



**Cyfryngau Cymdeithasol**

Rydym yn eich annog i gadw llygad am ddiweddariadau ar ein sianeli cyfryngau

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd a'r Amgylchedd

2018 / 2019